Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Dewi Sant
# Rhodfa Bryndulais
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 8RS

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg o fewn awdurdod Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Gymraeg Dewi Sant.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Llanelli ac mae'r dalgylch yn ymestyn o Ddyffryn y Swistir yn y gogledd hyd at bentref Machynys yn y de.  Mae 467 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 72 o blant meithrin, ar y gofrestr. Mae gan yr ysgol 16 dosbarth.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.  Tua 29% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig ac mae ychydig iawn o disgyblion ble nad yw’r Gymraeg na’r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.  Mae'r ysgol wedi adnabod tua 17% fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae tua 9% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Mai 2017 ar ôl cyfnod o fod yn bennaeth dros dro yn yr ysgol ers Medi 2016.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn 2016-2017 yw £3,143.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083.  Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn safle 97 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol
- hwyrddyfodiaid a disgyblion ble mae'r Gymraeg yn iaith newydd iddynt, yn datblygu eu hyfedredd yn yr iaith yn gyflym iawn yn yr ysgol
- medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda
- llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion, gyda safonau sillafu, atalnodi a gramadeg rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus
- ymddygiad bron bob un yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth a'r llywodraethwyr wedi gosod cyfeiriad clir i'r ysgol drwy adolygu a chryfhau strwythurau arwain, sicrhau atebolrwydd pob aelod o staff a chynyddu disgwyliadau
- arweinwyr ac athrawon yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant
- y llywodraethwyr yn sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac maent yn defnyddio gwybodaeth yn briodol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- y prosesau cynllunio ar gyfer gwelliant wedi arwain yn gyffredinol at welliannau mewn llawer o agweddau o ddarpariaeth a safonau disgyblion
- adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ac i'r lefel briodol

A2 Datblygu gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a dylanwadu ar eu dysgu eu hunain

A3 Sicrhau bod gweithgareddau yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A4 Miniogi prosesau gwella ansawdd fel bod arweinwyr yn adnabod y meysydd i'w gwella yn drylwyr ac yn mynd i'r afael â nhw yn gyflymach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd yn cyfateb i'r disgwyl am eu hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae hwyrddyfodiaid a disgyblion ble mae'r Gymraeg yn iaith newydd iddynt, yn datblygu eu hyfedredd yn yr iaith yn gyflym iawn yn yr ysgol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Yn unol â'u hoed a'u gallu, maent yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan gyflwyno gwybodaeth a sôn am eu profiadau gyda threfn a dilyniant synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu tafodiaith leol gyfoethog ac yn defnyddio geirfa ac ymadroddion addas. Maent yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg ac yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o ofynion cynulleidfa drwy ddechrau amrywio llais, goslef ac ystum. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus, ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau pwrpasol a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau disgyblion ac oedolion eraill. Maent yn siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddeg gyda mesur da o gywirdeb.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn trafod ac ymateb i gwestiynau syml sy'n ymwneud â chynnwys eu llyfrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn darllen geiriau sydd yn gyfarwydd iddynt yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn Gymraeg ac yn Saesneg yn glir gyda mynegiant priodol, gan wneud defnydd da o'u llais i gynnal diddordeb y gwrandäwr. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau, maent yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau yn dda. Maent yn cywain gwybodaeth am bwnc penodol o ffynonellau amrywiol, fel y we a llyfrau ffeithiol, ac yn eu defnyddio'n briodol yn eu gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae gan y darllenwyr mwyaf hyderus ddealltwriaeth briodol o amrywiaeth o destunau, gan ddewis y prif bwyntiau a dangos ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd tu ôl i destunau drwy dynnu casgliadau rhesymol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae rhan fwyaf y disgyblion ieuengaf yn dal offer ysgrifennu mewn modd addas, gan ysgrifennu o'r chwith i'r dde mewn dilyniant priodol, gan wahaniaethu rhwng llythrennau yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion ddefnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r darllenydd. Er enghraifft, maent yn trefnu darn o ysgrifennu gyda dechrau, canol a diwedd yn ofalus wrth gyflwyno stori Lola'r Lindys.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn Saesneg ac yn Gymraeg.  Maent yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio paragraffau yn gynyddol gywir.  Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ddatblygu eu syniadau'n ddiddorol.  Gallant drosglwyddo'u medrau yn briodol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gynllunio cyfweliad gydag Anne Boleyn yn eu gwaith hanes am Y Tuduriaid.  Mae safonau sillafu, atalnodi a gramadeg rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac mae eu llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn daclus a threfnus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gafael ar fedrau sylfaenol rhif.  Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn datrys problemau rhif syml yn addas, defnyddio arian mewn sefyllfa pob dydd a defnyddio unedau mesur yn gywir.  Maent yn adnabod gwahanol siapiau a chasglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar yn llwyddiannus.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio ystod o fedrau trin data yn drwyadl wrth gasglu gwybodaeth a'i chyflwyno mewn tablau, a graffiau bar a llinell.  Maent yn datrys problemau rhif yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu cyflymder peiriannau sgrech mewn parciau antur ar draws y byd.   Pan gânt y cyfle, mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn hyderus, er enghraifft wrth gynnal ymchwiliadau gwyddonol.  Mae hyn yn eu galluogi i gymhwyso'u dealltwriaeth o waith rhif yn llwyddiannus mewn sefyllfa bywyd go iawn.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon cyson nac i'r lefel briodol y tu allan i wersi mathemateg.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol.  Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.  Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus, gan gynnwys defnyddio prosesydd geiriau a meddalwedd i greu pamffledi a phosteri i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol.  Maent yn cyfleu gwybodaeth yn llwyddiannus ar ffurf graff, er enghraifft i drefnu data ynglŷn â phobl sydd yn eu helpu.  Mae llawer o'r disgyblion yn creu dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy yn hyderus.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, cynhyrchu cyflwyniadau digidol, ffurfio graffiau ac ymchwilio ar y rhyngrwyd yn gynyddol hyderus mewn amrywiol gyd-destunau.  Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ymchwiliol a llythrennedd y disgyblion.  Maent hefyd yn gwybod sut i fwydo bas data syml i greu graffiau a siartiau, er enghraifft wrth ymchwilio i brif afonydd y byd.

Dros y pedair mlynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen wedi gosod yr ysgol yn gyson uwch na’r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.  Dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% isaf a’r 25% uchaf.  Mae perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch yn gosod yr ysgol yn gyson o dan y canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair mlynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn is na’r canolrif ym mhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg.  Yn gyffredinol, mae canrannau’r disgyblion sy’n cyflawni ar y lefel uwch yn gwella’n raddol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae ymddygiad bron bob un yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill. O oedran ifanc, maent yn trafod yn serchus ac yn hyderus ag oedolion, eu cyfoedion ac ymwelwyr.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agwedd gref a dealltwriaeth dda o egwyddorion bywyd iachus. Esiampl o hyn yw gwaith yr 'arweinwyr chwaraeon' sydd yn sicrhau bod cadw'n heini yn flaenoriaeth yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb a chynnig syniadau am faterion sy'n ymwneud â'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn weithgar ac mae eu penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae gwasanaethau clod wythnosol o dan arweiniad y 'Llysgenhadon Gwych' yn cyfrannu'n gryf at hawliau'r disgybl ac yn magu hunanhyder wrth iddynt siarad yn gyhoeddus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau arweinyddiaeth gwerthfawr.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n hyderus ac yn dysgu trwy weithgareddau chwarae pwrpasol. Maent yn dyfalbarhauâ'u tasgau ymchwiliol am gyfnod addas o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion agwedd aeddfed at eu gwaith ac maent yn cydweithio'n bwrpasol â'u cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw gallu'r lleiafrif o ddisgyblion i weithio'n annibynnol nac i wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu wedi datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae rhan amlwg yn y gymuned leol. Trwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n agos â busnesau lleol i ddatblygu prosiectau Masnach Deg ac yn creu posteri deniadol i hybu ymwelwyr i Barc Sandy.

Yn gyffredinol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn gosod yr ysgol yn is na'r canolrif dros y pedair blynedd diwethaf. Er hynny, mae'r cyfraddau presenoldeb yn gwella yn raddol dros y cyfnod ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae presenoldeb grwpiau bregus o ddisgyblion yn gwella'n raddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon bob dydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn ymateb yn gydwybodol i anghenion disgyblion ac mae llawer o'r profiadau dysgu drwy'r ysgol yn adeiladu'n llwyddiannus ar profiadau blaenorol y disgyblion.

Mae cynlluniau ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda'u gwaith. Mae athrawon yn darparu profiadau cyfoethog sy'n llwyddo i ddod â'r dysgu yn fyw i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn gynhwysfawr ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er hyn, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl .

Mae'r ysgol yn defnyddio'r Fframwaith Llythrenedd a Rhifedd yn briodol i gynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar,darllen ac ysgrifennu disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn effeithiol ac mae sylw priodol yn cael ei roi i ddatblygu medrau meddwl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau allgyrsiol buddiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion y tu allan i'r ysgol ac yn atgyfnerthu eu medrau pynciol a chymdeithasol yn effeithiol, gan gynnwys ymweliadau i wersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Chaerdydd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Trwy brosiectau ailgylchu a diwrnodau eco, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sut mae modd ailddefnyddio nwyddau ac offer i arbed yr amgylchedd. Mae prosiect diweddar i godi arian ar gyfer darparu cyflenwad dŵr i bentref yn Uganda wedi codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus.

**Addysgu: Digonol**

Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas hynod ofalgar sydd yn bodoli rhwng staff a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cysylltu gwersi â dysgu blaenorol yn bwrpasol. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Maent yn rheoli ymddygiad yn fedrus a chyda sensitifrwydd.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o arddulliau addysgu yn synhwyrol, gan sefydlu amcanion dysgu clir a'u rhannu gyda disgyblion i sicrhau pwrpas cryf i'r dysgu. Maent yn esbonio tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn. Yn y lleiafrif o enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion, yn arbennig i'r rhai mwyaf galluog. Mae cyflymder lleiafrif o wersi yn llesteirio gallu'r disgyblion i gyflawni'n llawn ac mae gorgyfarwyddo gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn ac yn galluogi'r athrawon i adnabod yr hyn mae disgyblion yn ei ddeall ac i'w cynorthwyo i gynllunio'r camau nesaf ar eu cyfer. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod

gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol, sy'n aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Mewn llawer o achosion, lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Yn yr ychydig sylwadau marcio sy'n llai effeithiol, er bod athrawon yn cynnig gwelliannau, nid ydynt yn ddigon miniog nac yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar feini prawf y wers. Mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant, gan gynnwys adroddiadau blynyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau clir i ddisgyblion ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar, llawn gofal lle mae disgyblion yn ddiogel. Mae pwyslais cryf ar barch. Mae hyn yn helpu codi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. Caiff iechyd a ffitrwydd eu hyrwyddo'n ddyddiol trwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol a chlybiau allgyrsiol. Mae hyn yn cyfrannu at ymddygiad da iawn yn ystod gwersi a chyfnodau rhydd.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac maent yn darparu ymyraethau cadarn ar eu cyfer. Er enghraifft, mae'r rhaglen ar gyfer gwella iaith a lleferedd disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau siarad a gwrando disgyblion penodol. Mae cynlluniau datblygu unigolion yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rhieni a'r disgyblion. Mae'r arweinydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro cynlluniau a chynnydd y disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, gan adnabod camau nesaf synhwyrol i'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau unigol.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gymhorthydd arbenigol i gefnogi'r disgyblion trwy gynllun 'bocs becso'. Mae bron bob un disgybl yn teimlo bod ganddynt glust yn yr ysgol i'w cynorthwyo a goresgyn eu gofidiau. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar les emosiynol y disgyblion. Mae gan yr ysgol hefyd gysylltiadau cadarn ag asiantaethau allanol arbenigol sy'n cefnogi ei gwaith yn fedrus. O ganlyniad, mae teuluoedd yn derbyn cynhaliaeth werthfawr sy'n cael effaith fuddiol ar les, hyder a chyflawniad y disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gosod strategaethau cynhwysfawr yn eu lle i godi lefelau presenoldeb trwy gydweithrediad agos â swyddog lles a'r rhieni. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol ym mhresenoldeb grwpiau o ddisgyblion bregus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar, lle mae holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae'r ysgol yn

cynnig mynediad cyfartal i bob disgybl i’r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol ac mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr er mwyn delio’n effeithiol ag unrhyw achos o anghydfod pe bai’n codi.

Mae cyflenwad da o lyfrau darllen ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn arddangos gwaith disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a’r mannau cyhoeddus mewn modd chwaethus, sy’n rhoi bri ar eu cyflawniadau. Mae hyn yn ychwanegu at yr ethos cartrefol a chroesawgar yn effeithiol. Mae defnydd dychmygus o’r ardaloedd allanol yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu’n dda tuag at amgylchedd dysgu pwrpasol.

Ar y cyfan, mae adeiladau presennol yr ysgol yn creu heriau ar gyfer diwallu amgylchedd dysgu priodol ar gyfer nifer y disgyblion a’r gweithgareddau a gynigir, er enghraifft y prinder lle yng nghyfnod allweddol 2. Er bod heriau gyda’r adeilad, mae'r staff yn gweithio’n galed i sicrhau bod amgylchedd dysgu ysgogol yn cefnogi’r addysgu a’r dysgu yn briodol. Mae’r safle a’r adeilad yn ddiogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel o gyrhaeddiad a lles ac i baratoi disgyblion ar gyfer y dyfodol. Mae hi wedi rhannu’r weledigaeth yn effeithiol gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae hyn wedi creu ethos o gydweithio agos gyda ffocws clir ar wella’r ddarpariaeth a chodi safonau.

Ers ei phenodiad, mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr wedi gosod cyfeiriad clir i’r ysgol drwy adolygu a chryfhau strwythurau arwain, sicrhau atebolrwydd pob aelod o staff a chynyddu disgwyliadau. Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau manwl sy’n cysylltu’n glir â’u cyfrifoldebau unigol. Yn ddiweddar, mae hyn yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. Mae rolau’r uwch arweinwyr newydd yn datblygu’n briodol. Er enghraifft, mae aelodau’r uwch dîm rheoli wedi datblygu gweithdrefnau buddiol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o wahanol grwpiau o ddisgyblion ac yn dechrau eu galluogi i deilwra cefnogaeth yn fwy effeithiol ar eu cyfer.

Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd uwch dîm rheoli a chyfarfodydd staff ac adrannau yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae’r athrawon yn ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant. Mae'r ysgol yn cyd-gysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol yr holl staff gyda thargedau rheoli perfformiad yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau buddiol gan y

pennaeth ar waith yr ysgol. Yn ogystal, mae nifer ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ymgymryd â gweithgareddau monitro. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain ddealltwriaeth gadarn o lawer o gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant. Maent yn gwneud defnydd priodol o ystod o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddiadau data, craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi ac ystyried barn disgyblion a rhieni. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi cryfhau'r prosesau hunanarfarnu yn llwyddiannus. Mae trefniadau ar gyfer dadansoddi a defnyddio data yn gynhwysfawr, er nid ydynt bob tro yn ystyried treigl dros amser yn ddigon effeithiol i adnabod patrymau mewn perfformiad. Yn ddiweddar, mae gan y gweithgareddau monitro ffocws mwy miniog ar wella agweddau o waith yr ysgol, er enghraifft wrth ystyried sut mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r monitro yn rhoi darlun priodol i arweinwyr o gryfderau a meysydd i'w gwella, er bod tueddiad i arfarniadau fod yn rhy hael ar adegau, yn enwedig wrth ystyried agweddau o'r addysgu. Er bod llawer o brosesau hunanarfarnu newydd ar waith ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o flaenoriaethau, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith lawn ar y ddarpariaeth a safonau.

Mae cyswllt amlwg rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer rhesymol o flaenoriaethau sy'n seiliedig ar ddeilliannau gweithgareddau hunanarfarnu. Gan amlaf, mae'r blaenoriaethau gwella yn cynnwys meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro, ynghyd â nodi cyfrifoldebau a chostau clir. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol na'r camau gweithredu'n ddigon clir i alluogi arweinwyr i fynd i'r afael â'r holl agweddau sydd angen gwelliant yn ddigon cyflym. Yn gyffredinol, mae'r prosesau cynllunio ar gyfer gwelliant wedi arwain at welliannau mewn llawer o agweddau o ddarpariaeth a safonau disgyblion. Er enghraifft, mae'r gwaith ar ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ysgrifennu'n hyderus mewn ystod eang o wahanol ffurfiau. Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion ar gyfer gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae perthynas gadarn ac adeiladol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r llif o wybodaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn effeithiol ac mae rhieni'n derbyn gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â chyrhaeddiad, targedau a chynnydd eu plant yn rheolaidd. Nodwedd arbennig o'r bartneriaeth â'r rhieni yw'r gefnogaeth effeithiol a gynigir iddynt i ddeall blaengareddau newydd, fel strategaethau mathemateg. Mae hyn yn gyfrwng effeithiol i sefydlu perthynas gadarn a chynnwys y rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol a'r consortiwm i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae cysylltiadau da ag amrywiaeth o

asiantaethau i wella safonau lles y disgyblion. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu yn cyflwyno sesiynau i godi ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch ac mae’r frigâd dan yn rhoi gwersi i ddisgyblion am ddiogelwch yn y tŷ.

Mae’r berthynas gadarnhaol â’r cylchoedd meithrin yn sicrhau bod plant yn ymsefydlu’n llwyddiannus pan ddônt i’r ysgol. Mae’r trefniadau pontio cynhwysfawr â’r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus. Mae athrawon yn cydweithio’n gyson ag athrawon ysgolion eraill y clwstwr i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Yn ogystal, mae staff yr ysgol yn rhannu arfer dda ac yn trafod prosiectau cwricwlaidd penodol gydag ysgolion eraill, gan gynnwys cydweithio i ddatblygu medrau ac arbenigedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae gan yr ysgol le arwyddocaol yn y gymuned leol. Mae cysylltiadau agos â’r capeli lleol ac mae’r ysgol yn cynnal gwasanaethau a chyngherddau yn yr addoldai. Mae’r ysgol wedi creu cysylltiadau buddiol gyda nifer o fusnesau amlgyfrwng a sefydliadau lleol, er enghraifft tîm rygbi’r Sgarlets a thîm pêl-droed Abertawe, i gyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu’r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o’u harbenigedd ac mae cyfraniad y staff cynorthwyol yn werthfawr wrth annog a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ynglŷn ag amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y staff yn arwain at gyfleoedd buddiol i ddatblygu staff yn broffesiynol. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r hyfforddiant ar raglen iaith a lleferydd, sydd wedi gwella medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn gynnar yn eu bywyd ysgol.

Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus o fewn rhwydweithiau dysgu, sy’n cyfrannu’n effeithiol at gyfoethogi darpariaeth a safonau yn yr ysgol. Er enghraifft, mae’r gwaith ar ddatblygu darpariaeth TGCh wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion.

Gwna arweinwyr defnydd effeithiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion. Maent yn defnyddio’r grant yn bwrpasol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ac i gynnig profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion bregus.

Mae’r pennaeth a’r swyddog cyllid a busnes yr ysgol yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Ar y cyd â’r llywodraethwyr, maent wedi cynllunio’n ofalus er mwyn diddymu’r gorwariant blaenorol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

O ystyried safonau dros amser, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692371 - YSGOL GYMRAEG DEWI SANT**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 434 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 65 | 59 | 54 | 58 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 92.3 | 98.3 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 59 | 54 | 58 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 98.3 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.2 | 25.4 | 40.7 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 59 | 54 | 58 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.8 | 98.3 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.5 | 23.7 | 40.7 | 32.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 65 | 59 | 54 | 58 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 46.2 | 52.5 | 70.4 | 70.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692371 - YSGOL GYMRAEG DEWI SANT**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 434 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 44 | 53 | 48 | 50 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.1 | 90.6 | 93.8 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 53 | 48 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.6 | 96.2 | 93.8 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.4 | 30.2 | 50.0 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 53 | 48 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.4 | 92.5 | 91.7 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.4 | 32.1 | 45.8 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 53 | 48 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.4 | 92.5 | 93.8 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.5 | 20.8 | 35.4 | 36.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 53 | 48 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.6 | 94.3 | 93.8 | 94.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.1 | 24.5 | 41.7 | 46.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | | Disagree / Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 102 | 99 | 97% | 3 | 3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | | 98% | | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 74 | 77% | 22 | 23% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | | 92% | | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 102 | 93 | 91% | 9 | 9% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | | 97% | | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 96 | 96% | 4 | 4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | | 97% | | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 99 | 83 | 84% | 16 | 16% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | 96% | | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 91 | 93% | 7 | 7% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | | 96% | | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 101 | 95 | 94% | 6 | 6% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | | 99% | | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 99 | 96 | 97% | 3 | 3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | | 98% | | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 101 | 85 | 84% | 16 | 16% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | | 90% | | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 102 | 89 | 87% | 13 | 13% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | 95% | | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 72 | 73% | 26 | 27% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | 77% | | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 65 | 66% | 33 | 34% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | 84% | | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 88 | 45 | 42 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 51% | 48% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 88 | 55 | 29 | 2 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 33% | 2% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 88 | 62 | 22 | 2 | 1 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 70% | 25% | 2% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 88 | 40 | 45 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 51% | 2% | 1% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 88 | 32 | 46 | 5 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 36% | 52% | 6% | 0% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 88 | 38 | 45 | 3 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 43% | 51% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 88 | 59 | 27 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 31% | 2% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 88 | 29 | 42 | 12 | 1 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 33% | 48% | 14% | 1% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 88 | 39 | 34 | 8 | 2 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 39% | 9% | 2% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 88 | 35 | 44 | 6 | 0 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 40% | 50% | 7% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 88 | 50 | 37 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 57% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 88 | 40 | 35 | 5 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 45% | 40% | 6% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 88 | 29 | 48 | 11 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 55% | 12% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 87 | 55 | 27 | 4 | 0 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 5% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 88 | 33 | 38 | 8 | 1 | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 38% | 43% | 9% | 1% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 88 | 40 | 41 | 5 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 45% | 47% | 6% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 87 | 22 | 31 | 6 | 2 | 26 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 25% | 36% | 7% | 2% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 88 | 38 | 45 | 2 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 43% | 51% | 2% | 1% | | |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 87 | 47 | 32 | 6 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 54% | 37% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Tony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |
| Ms Helen Nuttall | Arolygydd Tîm |
| Ms Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Mr Kevin Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Ann Clwyd Davies (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.